

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD AR NOS LUN 27AIN O IONAWR 2020 YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AM 7.30 GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Philip Williams, Stan Williams, Geraint Jones, Ceri Davies, Arwel Davies, Iwan Jones, Bari Evans, Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch a'r Clerc.

1. CROESO: Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Ceri Davies sydd yn mynychu'r cyfarfod fel aelod newydd y Cyngor. Roedd Cynghorydd Davies eisoes wedi cwblhau'r ffurflenni "Datganiad Derbyn Swydd" a "Cod Ymddygiad Aelodau - Cofrestr o Ddiddordebau Aelodau".

2. YMDDIHEURIADAU: Y cynghorwyr Hywel Davies a Falmai Evans.

3. DDATGAN DIDDORDEB.

Dim yn codi.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 25ain o Dachwedd 2019 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd adroddiad Cyngor Sir Ddinbych fod gwaith oedd eu hangen ar y ffyrdd yn y gymuned a chodwyd yn cyfarfod blaenorol wedi'i gwblhau erbyn hyn.

B. Derbyniwyd cadarnhad oddi wrth deulu William Bishop i wneud unrhyw rodd tuag at gadair olwyn chwaraeon arbennig i'r "Wheelchair Basketball North Wales". Penderfynwyd yr Aelodau am rodd o £100.00 tuag at yr apêl cadair olwyn newydd.

C. Derbyniwyd adroddiad Beiriannydd Diogelwch y Ffyrdd a Thrafnidiaeth Gynaliadwy Cyngor Sir Ddinbych fod y peiriant cyflymdra traffic yn ar y A525 cyfeiriad Rhuthun ym Mhentre' Llanrhaeadr yn ystod Hydref/Tachwedd 2019 yn dangos cyflymdra traffig wedi disgyn 5.3 filltir yr awr o 31.8 i 26.5 filltir yr awr. Penderfynwyd y Clerc i ddiolch i'r Swyddogion y Cyngor Sir am yr adroddiad ar wasanaeth ac i ofyn am y peiriant cyflymdra ar ochr Dinbych ar y A525 ym Mhentre' Llanrhaeadr pan fydd ar gael nesaf.

6. WEFAN Y CYNGOR.

Derbyniwyd gwybodaeth fod Cwmni HG Web Design o Bala wedi gorffen adeiladu gwefan newydd y Cyngor sydd yn fyw erbyn hyn. Penderfynwyd yr aelodau i hel ychwaneg o wybodaeth y gymuned i roi ar y wefan.

7. CYLLID.

A. Datganiad Banc £17,630.50.

B. Derbyniad rhan olaf o'r precept y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2019/2020 - £4,168.00.

C. Rhoddwyd yr Aelodau awdurdod i'r taliadau canlynol:-

1. Capel Y Pentre' Llanrhaeadr am gyfarfod yn y Festri ar 7fed o Hydref 2019 £20.00.

2. Apêl Pobi Goch am Bobi Coch i'r Gwasanaeth Sul y Cofio 10fed o Dachwedd 2019 £25.00.

3. Wheelchair Basketball North Wales - rhodd tuag at gadair olwyn William Bishop £100.00.

8. PRECEPT Y CYNGOR AM Y FLWYDDYN ARIANNOL YN DIWEDDU 31AIN O FAWRTH 2021.

Ar ôl trafodaeth ynglŷn â'r cyllid y Cyngor am y flwyddyn ariannol bresennol (2019/2020) a'r amcangyfrif am y flwyddyn ariannol 2020/2021, penderfynwyd gadael Treth y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2020/2021 ar y sail o £24 ar yr 505 preswyl yn y gymuned sydd yn cynhyrchu incwm o £12,120.00 sydd yn cyfateb i'r flwyddyn bresennol y Cyngor.

9. LWFANS BLYNYDDOL 2019/2020 AELODAU'R CYNGOR.

Adroddwyd y Clerc fod Aelodau'r Cyngor gan yr hawl i lwfans o £150.00, y Cadeirydd £1,500.00 ar Is-gadeirydd £500.00 i'w hawlio (os dymuno) cyn cyfarfod mis Mawrth 2020 y Cyngor.

10. MATERION CYNLLUNIO.

- A. Ar ddechrau'r cyfarfod croesawodd y Cadeirydd i Miss Georgia Crawley o Gwmni Cadnant i'r cyfarfod. Derbyniwyd adroddiad oddi wrth Miss Crawley fod y perchennog Bryn Morfydd, Llanrhaeadr am roi gwybodaeth newydd i'r Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych fod ei gwmni am roi cais ychwanegol i'r cais sydd wedi ei chaniatáu ar safle Bryn Morfydd yn Llanrhaeadr ddim eisiau adeiladu gwesty newydd ar y safle. Cafwyd sgwrs hefyd ynglŷn ar bryderon y Cynghorwyr fod rhai o'r amodau ar y cais cynllunio ddim wedi ei chyflwyno ar amser ar y safle. Diolchwyd i Miss Crawley fynychu'r cyfarfod ynglŷn ar wybodaeth a ddisgwylir y cais cynllunio/gwybodaeth ychwanegol yn y dyfodol agos.
- B. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu cais cynllunio 23/2019/0984 i godi estyniadau i'r annedd yn 2 Llwyn Bach Cottages yn Llanrhaeadr.
- C. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi gwrthod cais 23/2019/0706 tystysgrif datblygiad cyfreithlon presennol ar gyfer newid defnydd rhan o'r adeilad sengl (ailgyflwyno) yn Apartment Hen Sied yn Llanrhaeadr.
- D. Mae'r Arolygaeth Gynllunio wedi gwrthod yr apêl i'r cais cynllunio 23/2018/1164 - Cadw a newid y defnydd o flocc amwynder i adeilad amaethyddol er mwyn storio offer a pheiriannau sy'n ymwneud a rheoli'r tir yn Safle Carafanau Cae'r Mynydd, Saron.
- E. Cafwyd trafodaeth ynglŷn ar ddau safle o dir newydd sydd wedi eu cyflwyno yn Llanrhaeadr i'r Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych ar y Safleoedd Ymgeisio Ychwanegol. Penderfynwyd yr aelodau i wrthwynebu'r safleoedd newydd ac i ysgrifennu'r ymateb erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor i'r Clerc yrru ymlaen i'r Cyngor Sir Ddinbych.
- F. Derbyniwyd manylion cyfarfod "Cyflwyniad i Orfodaeth Cynllunio" ar nos Fawrth 26ain o Chwefror 2020 yn Rhaeadr.

11. GOHEBIAETH.

- A. Derbyniwyd llythyr oddi wrth Mrs Glenys Williams ynglŷn ar Barc Chwarae'r Gymuned (Llanrhaeadr) yn gofyn am ddylanwad y Cyngor Cymuned i roi pwysau i "gau'r giât" fel bod terfyn rhwng buarth yr Ysgol ar Barc y Gymuned a chawn dynnu'r arwydd sydd yn ein gwahardd yn ystod oriau Ysgol. Cytunodd y Cynghorydd Bari Evans i gael sgwrs gyda'r Pennaeth Ysgol Bro Cinmeirch Llanrhaeadr ynglŷn ar sefyllfa cyn rhoi ymateb llawn i Mrs Glenys Williams.
- B. Derbyniwyd rhestr o'r Sesiwn Hyfforddiant Un Llais Cymru yn Yr Wyddgrug yn ystod 2020.
- C. Derbyniwyd manylion newydd "Siarter rhwng Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned Sir Ddinbych a Chyngor Sir Ddinbych" oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych.
- D. Derbyniwyd nodyn atgoffa ar gyfer "Symiau Cymudo Agored" Cyngor Sir Ddinbych.

12. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Penderfynwyd yr Aelodau i'r Clerc tynnu sylw Cyngor sir Ddinbych at y canlynol:-

A: Mwd ar y A525 wrth y datblygiad tai newydd yn Llanrhaeadr.

B. Gwrych eisiau ei thorri wrth Hafod-y-Coed ym Mhrion.

C. Dwr glaw yn llifo ar y ffordd o'r mynediad newydd o'r car wrth Dŷ Isa' ym Mhrion.

D. Gyliau wedi eu tagu ar ffordd Prion i Beniel heibio'r Bwlch.

E. Arwydd ar goll ar y troad i'r ffordd Ysgol Pant Pastynog wrth Eglwys Prion.

F. Gyliau wedi eu tagu rhwng Tŷ Cerrig a Rhewl Valley ym Mheniel.

G. Tyllau yn y ffordd eisiau eu trwsio ar y ffordd heibio Tyddyn Isaf ym Mhrion.

13. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

A. Penderfynwyd yr Aelodau i'r Clerc tynnu sylw'r Pennaeth Ysgol Bro Cinmeirch yn Llanrhaeadr fod yna rhai moduron yn tynnu allan yn rhy gyflym o'r Ysgol heb ildio i'r moduron ar y ffordd.

B. Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd ei fod yn edrych i mewn i gael cymorth gan y "Woodland Trust" i blannu coed yn y gymuned.

14. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 24ain o Chwefror 2020 yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr am 7.30 o'r gloch.